# CYNLLUN MARCIO TGAU

**HAF 2024**

**TGAU**
**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT – UNED 1**
**3570NB0-1**

© WJEC CBAC Ltd.

**Ynglŷn â’r cynllun marcio hwn**

Pwrpas y cynllun marcio hwn yw sicrhau bod athrawon, dysgwyr a phartion eraill â diddordeb yn deall y meini prawf asesu a ddefnyddiwyd i asesu’r asesiad penodol hwn.

Marciwyd yr asesiad hwn yn ôl meini prawf penodol mewn cyfres fyw ac mae'r cynllun marcio hwn yn adlewyrchu hynny. Cafodd y ddogfen ei phenderfynu'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynhadledd arholwyr. Derbyniodd tîm o arholwyr cymwys hyfforddiant penodol ar sut i gymhwyso'r cynllun marcio hwn. Bwriad y gynhadledd oedd sicrhau bod yr holl arholwyr yn dehongli ac yn cymhwyso'r cynllun marcio yn yr un modd. Efallai nad yw'n bosibl, nac yn briodol, i'r cynllun marcio hwn gynnwys pob amrywiad y gall ymgeisydd ei gyflwyno mewn ymateb. Fodd bynnag, yn ystod y gynhadledd arholwyr, derbyniodd arholwyr gyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio eu barn broffesiynol i wobrwyo ymatebion amgen oedd yn ddilys. Derbyniwyd cyfarwyddyd hefyd yn y ddogfen hon ac adolygwyd ymatebion enghreifftiol.

Gan nad ydynt wedi gallu manteisio ar gymryd rhan yn y gynhadledd arholwyr, mae'n bosibl bod safbwynt athrawon, dysgwyr a defnyddwyr eraill yn mynd i fod yn wahanol o ran rhai manylion neu ddehongliad. Argymhellir yn gryf felly bod y cynllun marcio hwn yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr ag unrhyw gyfarwyddyd arall a gyhoeddwyd, fel enghreifftiau patrymol neu Ganllawiau i Athrawon. Y cynllun marcio hwn yw'r un terfynol. Ni fydd yn cael ei newid onid yw'n amlwg bod gwall yn y ddogfen. Mae'n adlewyrchu'r meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu ymatebion ymgeiswyr yn ystod y gyfres fyw.

© WJEC CBAC Ltd.

**CBAC TGAU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT – UNED 1**

**CYNLLUN MARCIO HAF 2024**

| **Cwestiwn** | | **Ateb** | **AA1** | **AA2** | **AA3** | **Cyf. Marc.** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | (a) | *Cwblhewch y tabl isod drwy ychwanegu'r termau cywir.*<br><br>Rhowch **1 marc** ar gyfer (i) Twf<br>Rhowch **1 marc** ar gyfer (ii) Datblygiad | 1,1 | | | 2 |
| | (b) | *Cwblhewch y frawddeg ganlynol:*<br><br>Gelwir y cyfnod bywyd o 13-19 yn …………………………………………<br><br>Rhowch **1 marc** am derm cywir<br><br>• Llencyndod | 1 | | | 1 |
| | (c) | *Ticiwch (✓)* y blwch cywir i nodi'r ffactor economaidd sy'n effeithio ar dwf (growth) a datblygiad dynol.<br><br>Rhowch **1 marc** am nodi cywir:<br><br>• Incwm | 1 | | | 1 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyf. Marc. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2. | | *Mae cerrig milltir datblygiad yn cael eu defnyddio i fesur patrymau disgwyliedig o ran datblygiad.*<br><br>*Rhowch **un** enghraifft o bob un o'r cerrig milltir datblygiad disgwyliedig canlynol ar gyfer plentyn 4 oed:* | | | | |
| | (i) | *Datblygiad corfforol*<br><br>Rhowch **1 marc** am nodi carreg filltir datblygiad corfforol fel y canlynol yn gywir:<br><br>• sefyll ar un droed<br>• rhedeg â rheolaeth<br>• dringo â rheolaeth (e.e. fframiau dringo)<br>• cydbwyso ar wrthrychau mwy<br>• pedalu treic / beic<br>• cymryd rhan mewn chwaraeon e.e. nofio<br>• dangos rheolaeth dros wrthrychau<br>• dringo ysgol<br>• newid cyfeiriad wrth gerdded<br>• cerdded i fyny ac i lawr y grisiau yn ddiogel<br>• neidio â'r ddwy droed gyda'i gilydd<br>• taflu pêl neu wrthrych<br>• rholio pêl<br>• dal pêl<br>• cerdded ar flaenau ei draed<br>• dechrau sgipio<br>• gallu gwisgo eu hunain<br>• symud yn hyderus ac yn ddiogel<br>• trin rhai eitemau o gyfarpar a gwrthrychau â rheolaeth dda, yn ddiogel a chan ddangos gofal e.e. siswrn<br>• dal pensil â 3 bys a dangos rheolaeth wrth lunio ffigurau a llythrennau adnabyddadwy<br>• gallu aros yn sych drwy'r dydd<br><br>Rhowch farciau am unrhyw sgil corfforol dilys arall a ddisgwylir gan blentyn pedair oed. | 1 | | | 1 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyf. Marc. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (ii) | *Datblygiad emosiynol*<br><br>Rhowch **1 marc** am nodi carreg filltir emosiynol fel y canlynol yn gywir:<br><br>• mynegi rhwystredigaethau e.e. colli ei dymer<br>• dod yn llai egosentrig<br>• gallu cydweithredu mwy ag eraill<br>• dechrau deall teimladau pobl eraill<br>• mynd yn genfigennus<br>• dechrau deall da a drwg<br>• ymlyniad e.e. yn gallu gwneud ffrindiau<br>• mae hunan-barch yn datblygu<br>• hunanhyder e.e. yn gallu negodi ag eraill<br>• datblygu teimladau e.e. mynegi ystod o deimladau<br>• mae ymlyniadau ac annibyniaeth yn datblygu<br><br>Rhowch farciau am unrhyw gerrig milltir emosiynol dilys eraill a ddisgwylir gan blentyn pedair oed. | 1 | | | 1 |
| | (iii) | *Datblygiad deallusol (intellectual)*<br><br>Rhowch **1 marc** am nodi carreg filltir ddeallusol fel y canlynol yn gywir:<br><br>• sgiliau iaith e.e. mae iaith yn dechrau cael ei sefydlu<br>• holi cwestiynau<br>• cyfrif / yr wyddor<br>• dechrau darllen ac ysgrifennu e.e. ysgrifennu ei enw ei hun<br>• meddu ar gysyniad sylfaenol o fesuriadau e.e. hyd, amser a phwysau<br>• mae ei alluedd meddyliol a'i gof yn dechrau datblygu<br>• gallu dysgu drwy chwarae<br>• gallu rhoi rhesymau a datrys rhai problemau<br>• datblygu cysyniadau moesol<br><br>Rhowch farciau am unrhyw gerrig milltir deallusol dilys eraill a ddisgwylir gan blentyn pedair oed. | 1 | | | 1 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyf. Marc. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3. | (a) | *Mae cyd-ddibyniaeth (interdependence) clir rhwng iechyd corfforol ac iechyd meddwl da.*<br><br>*Esboniwch y manteision cymdeithasol ac emosiynol i iechyd tymor hir unigolion os ydyn nhw'n gwneud ymarfer corff.*<br><br>Rhowch hyd at **4 marc** am esboniad o'r manteision cymdeithasol ac emosiynol posibl i iechyd tymor hir unigolion os ydyn nhw'n gwneud ymarfer corff.<br><br>Gall atebion gynnwys y canlynol:<br>• gwneud ffrindiau newydd a chysylltu â phobl / datblygu ac atgyfnerthu perthnasoedd rhyngbersonol e.e. cyfleoedd i siarad a chymdeithasu<br>• mae bod o gwmpas pobl yn gwneud gweithgareddau ymarfer corff / hobïau a chwaraeon o fudd i iechyd meddwl a rhwydweithiau cymdeithasol<br>• cael hwyl / mwy o hapusrwydd<br>• mae unigolion yn teimlo'n rhan o grŵp, gan leihau achosion o ymyleiddio a hyrwyddo cynhwysiant, wrth i stigma ac achosion o wahaniaethu gael eu herio<br>• lleihau lefelau straen (mae gallu ymarfer corff i leihau straen meddyliol a chorfforol yn hanfodol)<br>• gwell patrymau cysgu<br>• gwell hunanhyder<br>• lleddfu pryder<br>• cynhyrchu endorffinau<br>• gwell hunanddelwedd / hunan-barch<br><br>Rhowch farciau am unrhyw fanteision cymdeithasol ac emosiynol dilys eraill i iechyd tymor hir unigolion os ydyn nhw'n gwneud ymarfer corff. | | 4 | | 4 |

| Band | AA2 |
|---|---|
| 4 | **4 marc**<br>Ymateb ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o fanteision cymdeithasol ac emosiynol i iechyd tymor hir unigolion os ydyn nhw'n gwneud ymarfer corff. |
| 3 | **3 marc**<br>Ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o fanteision cymdeithasol ac emosiynol i iechyd tymor hir unigolion os ydyn nhw'n gwneud ymarfer corff. |
| 2 | **2 farc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o fanteision cymdeithasol ac emosiynol i iechyd tymor hir unigolion os ydyn nhw'n gwneud ymarfer corff. |
| 1 | **1 marc**<br>Ymateb cyfyngedig nad yw'n dangos fawr ddim gwybodaeth na dealltwriaeth o fateision cymdeithasol a / neu emosiynol gwneud ymarfer corff. |
| 0 | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyf. Marc. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3. | (b) | *Mae straen yn gallu effeithio ar lesiant unigolyn.*<br><br>*Esboniwch sut mae straen yn gallu cael effaith ar lesiant unigolyn.*<br><br>Rhowch hyd at **5 marc** am esboniad manwl o effeithiau straen ar lesiant unigolyn.<br><br>Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br>• mae cyfradd curiad y galon a phwysedd gwaed yn cynyddu, yn niweidio iechyd corfforol<br>• teimlo'n rhwystredig ac yn flin, iechyd emosiynol gwael<br>• dagreuol<br>• mynd i'w gragen, methu â gwneud penderfyniadau neu ymddygiad anhyblyg<br>• anhawster cysgu, iechyd emosiynol a chorfforol gwael<br>• methu â chanolbwyntio ac felly nid yw'n cwblhau tasgau<br>• effaith ar archwaeth a'r system dreulio, colli pwysau<br>• teimlo'n anhapus, gall arwain at iselder<br>• dod o hyd i arferion gwael i guddio teimladau eraill fel yfed ac ysmygu<br>• problemau cyfathrebu, yn cael effaith wrthgymdeithasol e.e. gall ynysu ei hun<br>• gall arwain at broblemau iechyd meddwl<br>• pyliau o banig<br>• poenau yn y frest, gorbryder a chur pen / meigryn<br><br>Rhowch farciau am unrhyw atebion dilys eraill sy'n esbonio effeithiau straen ar lesiant unigolyn. | | 5 | | 5 |

| Band | AA2 |
|---|---|
| 3 | **5 marc**<br>Ymateb ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o effaith straen ar lesiant unigolyn. |
| 2 | **3-4 marc**<br>Ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o effaith straen ar lesiant unigolyn. |
| 1 | **1-2 farc**<br>Ymateb cyfyngedig nad yw'n dangos fawr ddim gwybodaeth na dealltwriaeth o effaith straen ar lesiant unigolyn. Gall fod ar ffurf rhestr. |
| 0 | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyf. Marc. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3. | (c) | *Esboniwch beth yw ystyr gwydnwch a sut mae bod yn fwy gwydn (resilient) yn gallu helpu unigolion i reoli straen.*<br><br>Rhowch hyd at **6 marc** am esboniad manwl o sut mae bod yn fwy gwydn yn gallu helpu unigolion i reoli straen.<br><br>Gall yr ateb gynnwys cyfeiriadau at y canlynol:<br>**Gwydnwch**<br>• Ystyr gwydnwch yw gallu unigolyn i addasu'n llwyddiannus i dasgau bywyd yn wyneb anfantais gymdeithasol neu amodau andwyol iawn eraill.<br><br>Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br>• mae'n helpu unigolion i gymryd camau i ofalu am ei lesiant ei hun<br>• ei helpu i ddelio â phwysau, a lleihau'r effaith y mae straen yn ei chael ar ei fywyd<br>• byddai'n ei helpu i addasu yn wyneb amgylchiadau heriol, gan ar yr un pryd gynnal llesiant meddyliol sefydlog<br>• yn gallu goddef straen yn well<br>• yn helpu â strategaethau ymdopi<br>• delio ag adfyd heb anawsterau parhaol<br>• delio â digwyddiadau bywyd / trawsnewidiadau a phrofiadau<br><br>Rhowch farciau am unrhyw atebion dilys eraill sy'n esbonio beth yw ystyr gwydnwch a sut mae bod yn fwy gwydn yn gallu helpu unigolion i reoli straen. | | 6 | | 6 |

| Band | AA2 |
|---|---|
| 3 | **5-6 marc**<br>Esboniad ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o wydnwch a sut mae bod yn fwy gwydn yn gallu helpu unigolion i reoli straen. Mae'r ymateb yn nodi'n glir amrywiaeth eang o ffyrdd y gallai bod yn fwy gwydn helpu unigolion i reoli straen. |
| 2 | **3-4 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o wydnwch a sut mae bod yn fwy gwydn yn gallu helpu unigolion i reoli straen. Mae'r ymateb yn nodi o leiaf dair ffordd y gallai bod yn fwy gwydn helpu unigolion i reoli straen. |
| 1 | **1-2 farc**<br>Esboniad cyfyngedig nad yw'n dangos fawr ddim gwybodaeth na dealltwriaeth o wydnwch a sut mae bod yn fwy gwydn yn gallu helpu unigolion i reoli straen. Mae'r ymateb yn nodi o leiaf un ffordd y gallai bod yn fwy gwydn helpu unigolion i reoli straen. |
| 0 | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyf. Marc. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4. | (a) | *Mae Annie yn 67 oed. Ddeg mis yn ôl, cafodd Annie brofedigaeth (bereavement) pan wnaeth ei gŵr farw'n sydyn.*<br><br>*Disgrifiwch sut mae profedigaeth yn effeithio ar unigolion.*<br><br>Rhowch hyd at **5 marc** am ddisgrifiad manwl o sut mae profedigaeth yn effeithio ar unigolion.<br><br>Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br>• dim chwant bwyd<br>• diffyg cwsg<br>• peidio ag edrych ar ei ôl ei hun<br>• diffyg canolbwyntio / colli'r gallu i ganolbwyntio<br>• colli diddordeb mewn gweithgareddau / bywyd<br>• mwy o risg a bregusrwydd / sefydlogrwydd<br>• galar / dicter<br>• iselder / gorbryder<br>• sioc / dryswch<br>• ynysigrwydd / unigrwydd<br>• colli rôl mewn bywyd<br>• colli cwmnïaeth<br>• rôl rhiant sengl<br>• gwadu / gwrthod credu<br>• colli model rôl<br>• newid statws yn y teulu / rolau o fewn y teulu<br>• newidiadau ymddygiadol<br>• colli incwm<br>• rhyddhad nad yw'r unigolyn bellach yn dioddef<br><br>Gellid cyfeirio at effeithiau tymor byr neu hirdymor.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw atebion dilys eraill sy'n disgrifio sut mae profedigaeth yn effeithio ar unigolion. | 5 | | | 5 |

| Band | AA1 |
|---|---|
| **3** | **5 marc**<br>Disgrifiad ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut mae profedigaeth yn effeithio ar unigolion. Mae'r ymateb yn disgrifio'n glir amrywiaeth o ffyrdd y mae profedigaeth yn effeithio ar unigolion. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut mae profedigaeth yn effeithio ar unigolion. Ar y cyfan, mae'r ymateb yn disgrifio rhai o'r ffyrdd y mae profedigaeth yn effeithio ar unigolion. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Disgrifiad cyfyngedig nad yw'n dangos fawr ddim gwybodaeth na dealltwriaeth o sut mae profedigaeth yn effeithio ar unigolion. Mae'r ymateb yn nodi o leiaf un ffordd y mae profedigaeth yn effeithio ar unigolion. |
| **0** | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyf. Marc. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4. | (b) | *Mae merch Annie wedi bod yn annog ei mam i fynd allan i gwrdd â'i ffrindiau.*<br><br>*Esboniwch pam mae perthnasoedd â ffrindiau (friendships) yn bwysig yn ystod oedolaeth ddiweddarach.*<br><br>Rhowch hyd at **4 marc** am esboniad manwl o'r rhesymau pam mae perthnasoedd â ffrindiau yn bwysig yn ystod oedolaeth ddiweddarach.<br><br>Dylai'r atebion gyfeirio at agweddau cadarnhaol perthnasoedd â ffrindiau yn ystod oedolaeth ddiweddarach:<br><br>• cadw unigolion yn fwy gweithgar yn gymdeithasol<br>• osgoi mynd yn ynysig, yn unig, wedi diflasu, yn isel<br>• helpu i gadw'r cof yn weithgar / ysgogi ar lefel ddeallusol a rhoi ffocws<br>• helpu i gynyddu cymhelliant<br>• rhoi cymorth - i drafod digwyddiadau / profiadau bywyd e.e. profedigaeth<br>• sicrhau bod rhywun ar gael i wrando ac i siarad â nhw<br>• rhannu hobïau a diddordebau tebyg<br>• eu cadw'n weithgar ac yn eu hannog i ymgysylltu yn hytrach na datgysylltu<br>• cynnal lefelau hyder ac iechyd emosiynol cadarnhaol<br>• lleihau breguster - gall leihau achosion posibl o gam-drin wrth i unigolion fagu hunanhyder a hunan-barch, bydd yn llai tueddol y gall pobl eraill gamfanteisio arnynt neu eu niweidio.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw atebion dilys eraill sy'n esbonio'r rhesymau pam mae perthnasoedd â ffrindiau yn bwysig yn ystod oedolaeth ddiweddarach. | | 4 | | 4 |

| Band | AA2 |
|---|---|
| 4 | **4 marc**<br>Esboniad ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r rhesymau pam mae perthnasoedd â ffrindiau yn bwysig yn ystod oedolaeth ddiweddarach. |
| 3 | **3 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r rhesymau pam mae perthnasoedd â ffrindiau yn bwysig yn ystod oedolaeth ddiweddarach. |
| 2 | **2 farc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r rhesymau pam mae perthnasoedd â ffrindiau yn bwysig yn ystod oedolaeth ddiweddarach. |
| 1 | **1 marc**<br>Esboniad cyfyngedig nad yw'n dangos fawr ddim gwybodaeth na dealltwriaeth o'r rhesymau pam mae perthnasoedd â ffrindiau yn bwysig yn ystod oedolaeth ddiweddarach. |
| 0 | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyf. Marc. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4. | (c) | *Mae Annie yn deall pa mor bwysig yw bod yn fwy gweithredol (active) yn hytrach na bod yn oddefol (passive) yn ei gofal ei hun er mwyn osgoi problemau iechyd sydyn.*<br><br>*Trafodwch beth yw manteision cyfranogiad gweithredol (active participation) i Annie.*<br><br>Rhowch hyd at **6 marc** am drafodaeth fanwl o fanteision cyfranogiad gweithredol i Annie.<br><br>Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br>• mwy o annibyniaeth ac ymreolaeth<br>• llais, dewis a rheolaeth<br>• mwy o reolaeth dros benderfyniadau am ei bywyd, gan gynnwys ei gofal a'i chymorth<br>• gwell llesiant cyffredinol<br>• mwy o gyfleoedd ar gyfer y canlynol: dysgu a datblygu sgiliau a gwybodaeth bwysig; hyrwyddo ei llesiant ei hun<br>• cyswllt cymdeithasol a pherthnasoedd rhyngbersonol / meithrin perthynas<br>• cymryd rhan mewn gweithgareddau bob dydd sy'n bwysig iddi<br>• cynnal ei hannibyniaeth gymaint â phosibl<br>• mwy o hunan-werth a hyder<br>• bod yn llai agored i niwed a llai o siawns o gael ei cham-drin gan eraill<br>• gwell iechyd corfforol ac iechyd meddwl, a gwydnwch.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw atebion dilys eraill sy'n trafod manteision cyfranogiad gweithredol. | | | 6 | 6 |

| Band | AA3 |
|---|---|
| 3 | **5-6 marc**<br>Ymateb ardderchog sy'n dangos dealltwriaeth fanwl o gyfranogiad gweithredol. Mae'r ymateb yn rhoi barn wybodus am sut bydd cyfranogiad gweithredol o fantais i Annie. |
| 2 | **3-4 marc**<br>Ymateb da sy'n dangos dealltwriaeth o gyfranogiad gweithredol. Mae'r ymateb yn rhoi rhywfaint o farn am sut bydd cyfranogiad gweithredol o fantais i Annie. |
| 1 | **1-2 farc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o ddealltwriaeth o gyfranogiad gweithredol. Nid yw'r ymateb yn rhoi fawr ddim barn am sut bydd cyfranogiad gweithredol o fantais i Annie. |
| 0 | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyf. Marc. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5. | (a) (i, ii) | *Mae gan deulu Catrin hanes o glefyd y galon. Mae Catrin wedi cael diagnosis o golesterol uchel a phwysedd gwaed uchel yn barod. Mae hi a'i theulu'n byw mewn tŷ bychan mewn ardal ddiwydiannol ddifreintiedig (deprived) sydd â lefel uchel o ddiweithdra a throsedd. Mae gan Catrin ddau o blant bach.*<br><br>*Amlinellwch y ffactorau corfforol ac amgylcheddol fyddai wedi gallu cyfrannu at gyflwr iechyd presennol Catrin.*<br><br>Rhowch hyd at **3 marc** am amlinelliad manwl o'r ffactorau corfforol / amgylcheddol fyddai wedi gallu cyfrannu at gyflwr iechyd presennol Catrin.<br><br>Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>**Ffactorau corfforol**<br>• etifeddiad genetig e.e. rhagosodiad i gyflyrau meddygol<br>• mae rhai clefydau yn cael eu cario yn DNA deunydd genetig person a gellir eu trosglwyddo o riant i blentyn<br>• mae'n debygol bod ffactorau genetig yn chwarae rhan mewn pwysedd gwaed uchel, clefyd y galon. Fodd bynnag, mae hefyd yn debygol bod pobl sydd â hanes teuluol o glefyd y galon yn rhannu amgylcheddau cyffredin<br>• deiet, maeth a hydradu<br>• faint o weithgaredd corfforol a wneir<br>• y math o weithgareddau corfforol a wnaeth yn ystod ei bywyd<br><br>Rhowch hyd at **3 marc** am amlinelliad manwl o'r ffactorau amgylcheddol fyddai wedi gallu cyfrannu at gyflwr iechyd presennol Catrin.<br><br>**Ffactorau amgylcheddol**<br>• cyflwr tai<br>• argaeledd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gwasanaethau gofal plant<br>• rhannu amgylcheddau cyffredin - gweler uchod â chysylltiad rhwng genetig / amgylcheddol<br>• mynediad i weithgareddau chwaraeon<br>• mynediad i ganolfannau ffitrwydd<br><br>Rhowch farciau am unrhyw atebion dilys eraill sy'n dangos dealltwriaeth o sut gallai ffactorau corfforol a ffactorau amgylcheddol fod wedi cyfrannu at gyflwr iechyd presennol Catrin. | 6 [3,3] | | | 6 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 |
|---|---|
| 3 | **3 marc**<br>Ymateb da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut gallai'r ffactorau ffisegol / amgylcheddol fod wedi cyfrannu at gyflwr iechyd presennol Catrin. |
| 2 | **2 farc**<br>Ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut gallai'r ffactorau ffisegol / amgylcheddol fod wedi cyfrannu at gyflwr iechyd presennol Catrin. |
| 1 | **1 marc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth i nodi ffactor ffisegol / amgylcheddol a fyddai wedi gallu cyfrannu at gyflwr iechyd presennol Catrin. |
| 0 | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyf. Marc. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5. | (b) | *Esboniwch y gofal a'r cymorth sydd ar gael i helpu Catrin i gynnal a gwella ei hiechyd a'i llesiant.*<br><br>Rhowch hyd at **5 marc** am esboniad manwl o'r gofal a'r cymorth sydd ar gael i helpu Catrin i gynnal a gwella ei hiechyd a'i llesiant.<br><br>Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br>• mwy o gyswllt / cyswllt rheolaidd â gwasanaethau iechyd fel y meddyg teulu, ysbyty – i fonitro ac ati<br>• cymorth gan ddarparwyr eraill fel Sefydliad Prydeinig y Galon – gallant roi cyngor ar gynllunio prydau bwyd<br>• cymorth gan weithwyr proffesiynol eraill e.e. fel gofalwyr – i roi cymorth yn y cartref, cwnsela<br>• cymorth gan aelodau'r teulu – cludiant i apwyntiadau, anogaeth, cynnal llesiant / cadw'n bositif<br>• cymorth ariannol – gan y llywodraeth / teulu ac ati,<br>• cymorth i gadw'n actif gan ganolfannau iechyd, gweithwyr ffitrwydd, cynlluniau atgyfeirio meddygon teulu<br>• cymorth gofal plant – mae'r plant yn ifanc, rhiant sengl e.e. cylchoedd chwarae er mwyn cwrdd ag eraill a rhoi cymorth i'w gilydd<br>• Prosiectau addysg iechyd<br>• Mentrau / canllawiau'r Llywodraeth e.e. ffyrdd iach o fyw, byw'n iach<br>• Rhaglenni sgrinio<br>• Rhaglenni imiwneiddio e.e. brechlynnau ffliw<br><br>Rhowch farciau am unrhyw atebion rhesymol eraill sy'n esbonio pa ofal a chymorth ychwanegol y gallai fod eu hangen ar Catrin yn y dyfodol os bydd ei phroblemau iechyd yn parhau. | | 5 | | 5 |

| Band | AA2 |
|---|---|
| **3** | **4-5 marc**<br>Esboniad ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r gofal a'r cymorth sydd ar gael i helpu Catrin i gynnal a gwella ei hiechyd a'i llesiant. Mae'r ymateb yn esbonio amrywiaeth o ofal a chymorth posibl yn glir. |
| **2** | **2-3 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gofal a'r cymorth sydd ar gael i helpu Catrin i gynnal a gwella ei hiechyd a'i llesiant. Mae'r ymateb yn esbonio o leiaf ddau fath o ofal a chymorth posibl. |
| **1** | **1 marc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o'r gofal a'r cymorth sydd ar gael i helpu Catrin i gynnal a gwella ei hiechyd a'i llesiant. Gall yr ymateb gyfeirio at o leiaf un math o ofal a / neu gymorth posibl. |
| **0** | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyf. Marc. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5. | (c) | *Esboniwch yr effeithiau cadarnhaol ar blant ifanc Catrin o gael mynediad at gyfranogiad a chefnogaeth y gymuned (community involvement and support).*<br><br>Rhowch hyd at **6 marc** am esboniad manwl o sut gallai cael mynediad at gyfranogiad a chefnogaeth y gymuned fod o fantais i blant ifanc Catrin.<br><br>Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br>• gallent fynd i gylchoedd chwarae<br>• gallai Catrin a'r plant ddatblygu rhwydwaith mwy o ffrindiau<br>• gallent fynd i weithgareddau mewn canolfannau cymunedol neu grwpiau ffydd<br>• gallai helpu aelodau'r teulu i gael mwy o reolaeth dros eu bywydau<br>• helpu aelodau'r teulu i wneud penderfyniadau a allai effeithio ar eu hiechyd a'u llesiant<br>• eu helpu i deimlo'n rhan o'r gymuned drwy gymryd rhan mewn mentrau lleol<br>• gallai leihau rhai anghydraddoldebau iechyd e.e. Dechrau'n Deg<br>• cynyddu hyder y plant<br>• cynyddu eu cyfleoedd i gymdeithasu / datblygu sgiliau cymdeithasol<br>• datblygiad iaith<br>• datblygiad corfforol<br>• helpu i ddatblygu gwydnwch<br>• mae'n bosibl y cânt eu cyfeirio at wasanaethau iechyd<br><br>Rhowch farciau am unrhyw atebion dilys eraill sy'n dangos dealltwriaeth o sut gallai cael mynediad at gyfranogiad a chefnogaeth y gymuned gael effaith gadarnhaol ar blant ifanc Catrin. | | 6 | | 6 |

| Band | AA2 |
|---|---|
| 3 | **5-6 marc**<br>Esboniad ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut gallai cael mynediad at gyfranogiad a chefnogaeth y gymuned gael effaith gadarnhaol ar blant ifanc Catrin.<br>Mae'r ymateb yn nodi amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol ar gyfer y plant yn glir. |
| 2 | **3-4 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut gallai cael mynediad at gyfranogiad a chefnogaeth y gymuned gael effaith gadarnhaol ar blant ifanc Catrin.<br>Mae'r ymateb yn nodi o leiaf ddwy effaith gadarnhaol ar y plant. |
| 1 | **1-2 farc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut gallai cael mynediad at gyfranogiad a chefnogaeth y gymuned gael effaith gadarnhaol ar blant ifanc Catrin.<br>Mae'r ymateb yn nodi un effaith gadarnhaol neu fwy ar y plant. |
| 0 | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyf. Marc. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6. | (a)<br>(i,ii) | *Mae Louis yn 3 oed ac mae wedi datblygu'r frech goch (measles). Mae'n sâl iawn. Heddiw yw'r diwrnod cyntaf mae'r frech (rash) wedi ymddangos ac mae'n methu mynd i'r feithrinfa.*<br><br>*Nodwch* ***ddwy*** *ffynhonnell (sources) wahanol o ofal a chymorth mae mam Louis yn gallu eu defnyddio i helpu Louis.*<br><br>Rhowch hyd at **1 marc** yr un am **ddwy** ffynhonnell wahanol o ofal a chymorth mae mam Louis yn gallu eu defnyddio i helpu.<br><br>Gallai atebion gynnwys:<br>• meddyg teulu<br>• nyrs yr ysgol<br>• nyrs<br>• ymwelydd iechyd<br>• fferyllydd<br>• gofal plant anffurfiol<br>• ysbyty<br>• gwasanaeth 111 y tu allan i oriau | 1,1 | | | 2 |
| | (b) | *Disgrifiwch sut mae'r cymorth rydych chi wedi'i nodi yn gallu helpu Louis a'i fam.*<br><br>Rhowch hyd at **3 marc** am ddisgrifiad o sut mae'r cymorth rydych wedi'i nodi (uchod) yn gallu helpu Louis a'i fam.<br><br>Gall atebion gynnwys y canlynol:<br>• rhoi cyngor<br>• trafod rhai triniaethau, rhagnodi meddyginiaeth<br>• esbonio'r symptomau<br>• ateb cwestiynau<br>• rhoi arweiniad ar unrhyw gymhlethdodau<br>• sicrhau'r gofal cywir / triniaeth gywir<br>• gofalu am Louis er mwyn rhoi seibiant i'w fam / er mwyn iddi allu gweithio<br>• rhoi tawelwch meddwl / sicrwydd, lleihau'r straen ar ei fam<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ddisgrifiad rhesymol arall o sut mae'r cymorth rydych wedi'i nodi yn gallu helpu Louis a'i fam. | 3 | | | 3 |
| | (c) | *Ystyriwch sut byddai'r rhaglen imiwneiddio plant wedi gallu hybu a chefnogi twf a datblygiad Louis.*<br><br>*Rhowch hyd at* ***4 marc*** *am ystyriaeth fanwl o sut byddai'r rhaglen imiwneiddio plant wedi gallu hybu a chefnogi twf a datblygiad Louis.*<br>Gall atebion gyfeirio at y canlynol: | | | 4 | 4 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyf. Marc. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Pwyntiau cyffredinol**<br>Nod y rhaglen plant iach yw sicrhau bod pob plentyn yn cael dechrau da ac iach mewn bywyd.<br>o statws clwy'r pennau a rwbela (MMR)<br>o Polio (IPV) (4ydd dos)<br>o brech yr ieir (Varicella) (2il ddos)<br>o pigiad atgyfnerthu cyn ysgol<br><br>**Pwyntiau penodol**<br>• byddai wedi cael y brechiadau er mwyn atal afiechydon cysylltiedig<br>• ni fyddai Louis wedi dal y frech goch<br>• ni fyddai Louis wedi methu sesiynau yn y feithrinfa - gan golli cyfleoedd i ddatblygu<br>• ni fyddai wedi bod yn sâl – dim chwant bwyd, colli pwysau<br>• ni fyddai unrhyw risg i'w iechyd - gallai cael y frech goch fod yn angheuol<br>• ni fyddai risg y byddai'n colli ei olwg / y byddai ei olwg yn dirywio<br>• pe bai Louis wedi cael imiwneiddiadau, gallai fod wedi lleihau'r risg sy'n gysylltiedig â chymhlethdodau tymor hir y frech goch<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ateb rhesymol. | | | | |

| Band | AA3 |
|---|---|
| 4 | **4 marc**<br>Ymateb ardderchog sy'n dangos ystyriaeth fanwl o sut byddai'r rhaglen imiwneiddio plant wedi gallu hybu a chefnogi twf a datblygiad Louis. Mae'r ymateb yn ystyried yn glir o leiaf dair ffordd y byddai datblygiad Louis wedi gallu cael ei hybu a'i gefnogi. |
| 3 | **3 marc**<br>Ymateb da sy'n dangos ystyriaeth o sut byddai'r rhaglen imiwneiddio plant wedi gallu hybu a chefnogi twf a datblygiad Louis. Mae'r ymateb yn ystyried o leiaf ddwy ffordd y byddai datblygiad Louis wedi gallu cael ei hybu a'i gefnogi. |
| 2 | **2 farc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o ystyriaeth o sut byddai'r rhaglen imiwneiddio plant wedi gallu hybu a chefnogi twf a datblygiad Louis. Mae'r ymateb yn gwneud ymdrech i nodi un **neu** ddwy ffordd y byddai datblygiad Louis wedi gallu cael ei hybu a'i gefnogi. |
| 1 | **1 marc**<br>Ymateb cyfyngedig nad yw'n dangos fawr ddim ystyriaeth o sut byddai'r rhaglen imiwneiddio plant wedi gallu hybu a chefnogi twf a /neu ddatblygiad Louis. Dim ond un ffordd y byddai datblygiad Louis wedi gallu cael ei hybu a'i gefnogi gan raglenni imiwneiddio y mae'r ymateb yn gwneud ymdrech i'w dangos. |
| 0 | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

<table>
<tr><th colspan="2">Cwestiwn</th><th>Ateb</th><th>AA1</th><th>AA2</th><th>AA3</th><th>Cyf. Marc.</th></tr>
<tr><td>7.</td><td><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>(a)<br>(i,ii)</td><td>Mae Amy yn 18 oed. Fe wnaeth Amy adael yr ysgol ychydig cyn genedigaeth Joshua, ei mab, sy’n 16 mis oed nawr. Maen nhw’n byw gyda’i mam a’i thad. Mae gan y teulu incwm cymedrol (moderate) gan fod Amy a’i mam yn gweithio, ac mae ei thad yn cefnogi gyda gofal plant. Mae’r tŷ yn eithaf mawr, mae gan Amy a Joshua eu hystafelloedd gwely eu hunain ac mae gardd yno. Mae Amy yn ddiolchgar i’w rhieni am eu cefnogaeth oherwydd mae’n golygu ei bod hi’n gallu dechrau prentisiaeth.<br><br>Amlinellwch ddwy agwedd ar ddatblygiad Joshua fyddai’n gallu cael eu heffeithio’n gadarnhaol gan drefniadau byw y teulu.<br><br>Rhowch 1 marc am amlinelliad cyfyngedig o agweddau ar ddatblygiad Joshua fyddai'n gallu cael eu heffeithio'n gadarnhaol gan drefniadau byw y teulu.<br><br>Rhowch 2 farc am amlinelliad manwl o agweddau ar ddatblygiad Joshua fyddai'n gallu cael eu heffeithio'n gadarnhaol gan drefniadau byw y teulu.<br><br>Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Datblygiad corfforol<br>• digon o le i symud o gwmpas y tŷ a'r ardd i hyrwyddo sgiliau echddygol bras<br>• incwm cymedrol i ddarparu maeth digonol / bwyd iach ar gyfer twf<br>• gallai tai priodol hyrwyddo hylendid da / llai o risg o salwch<br>• ystafell wely ei hun fel y gall gael digon o gwsg<br><br>Datblygiad deallusol<br>• digon o ysgogiad gan y teulu<br>• incwm cymedrol i brynu offer i'w helpu i ddysgu<br><br>Datblygiad iaith<br>• amrywiaeth o bobl sy'n siarad ag ef er mwyn meithrin sgiliau iaith<br><br>Datblygiad emosiynol<br>• ystafell wely ei hun, yn gallu bod ar wahân i'r lleill / annibyniaeth<br>• teulu cariadus i roi sicrwydd<br>• amgylchedd hapus a diogel – mae'r fam yn gwneud cynnydd felly cyflwr meddwl da.<br><br>Datblygiad cymdeithasol<br>• llawer o gyfleoedd i ryngweithio â gwahanol aelodau'r teulu<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb derbyniol arall.</td><td><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>2 x 2</td><td></td><td></td><td><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>4</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyf. Marc. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Crynhowch (summarise) sut gall **un** o'r digwyddiadau bywyd mae Amy wedi'u profi fod wedi effeithio ar ei datblygiad a'i llesiant hi.*<br><br>Rhowch hyd at **3 marc**<br><br>Gallai'r atebion gyfeirio at y canlynol:<br>• digwyddiadau bywyd<br>• cael plentyn yn ifanc<br>• mynd i'r ysgol / gadael yr ysgol<br>• genedigaeth ei mab neu ddod yn fam, cael prentisiaeth.<br><br>Gall yr effeithiau fod yn effeithiau cadarnhaol a negyddol, gan gynnwys:<br>• datblygu sgiliau newydd fel mam neu ddychwelyd i fyd addysg<br>• mae ei gallu i ddysgu pethau newydd o safbwynt academaidd wedi dod i ben gan ei bod bellach wedi gadael yr ysgol<br>• datblygu mwy o aeddfedrwydd nawr ei bod yn fam<br>• mae'n bosibl y bydd y corff yn newid o ganlyniad i ddod yn fam<br>• mwy o hunangyfrifoldeb wrth ddod yn fam<br>• y straen a'r pryder sy'n gysylltiedig â dod yn fam<br>• y gallu i ymdopi<br>• profi emosiynau gwahanol<br>• mae mynd i'r ysgol yn golygu ei bod yn gwneud ffrindiau newydd<br>• datblygu mwy o hunanhyder<br><br>Mae'n bosibl y bydd ei hunanddelwedd, hunan-barch a hunan-gysyniad yn newid, a hynny mewn ffordd gadarnhaol a negyddol - dylid nodi ac egluro hyn yn glir wrth ateb.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb derbyniol arall. | 3 | | | 3 |

| Band | AA2 |
|---|---|
| **3** | **3 marc**<br>Crynodeb da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut gall un o'r digwyddiadau bywyd mae Amy wedi'u profi fod wedi effeithio ar ei datblygiad a'i llesiant hi. |
| **2** | **2 farc**<br>Crynodeb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut gall un o'r digwyddiadau bywyd mae Amy wedi'u profi fod wedi effeithio ar ei datblygiad a'i llesiant hi. |
| **1** | **1 marc**<br>Crynodeb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut gall un o'r digwyddiadau bywyd mae Amy wedi'u profi fod wedi effeithio ar ei datblygiad a'i llesiant hi. |
| **0** | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyf. Marc. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 7. | (c) | *Aseswch pa mor bwysig yw perthnasoedd teulu (family relationships) i dwf, datblygiad a llesiant Amy.*<br><br>*Rhowch hyd at **10 marc** am asesiad cywir o ba mor bwysig yw perthnasoedd teulu i dwf, datblygiad a llesiant Amy.*<br><br>Gall atebion gynnwys y canlynol:<br>• diogelwch – drwy ddarparu to uwch ei phen a chefnogaeth ychwanegol<br>• hyder wrth ei helpu i ymdopi<br>• diogeledd – bydd ei mam yn ei helpu i ddatblygu ei sgiliau fel mam<br>• cyfeillgarwch – gall y teulu ddod yn agosach<br>• bond teulu – gall y teulu ddod yn agosach fel uned<br>• cymorth – cymorth anffurfiol e.e. gwarchod y baban gan alluogi Amy i fwrw ymlaen â'i bywyd / swydd newydd<br>• ariannol – help a chymorth<br>• dysgu gwerthoedd – cefnogi Amy i helpu Joshua i amsugno beth bynnag y bydd yn sylwi neu'n arsylwi arno yn y teulu<br>• datblygiad cymdeithasol – bydd y rhyngweithio rhwng aelodau'r teulu ac Amy a'i phlentyn yn eu helpu i ddysgu am ryngweithio ag eraill. (gall y ffordd y mae teulu yn rhyngweithio â phlentyn helpu plentyn i ddeall perthnasoedd yn well)<br>• dysgu sgiliau newydd – mae'n bwysig iawn bod ei theulu'n helpu Amy i ddysgu sut i ofalu am y babi a sut i helpu Joshua i ddysgu sgiliau datblygiadol amrywiol fel sgiliau echddygol, sgiliau gwybyddol, sgiliau emosiynol a sgiliau iaith er mwyn sicrhau'r twf a'r datblygiad gorau posibl.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw atebion eraill sy'n dangos pa mor bwysig yw perthnasoedd teulu i dwf, datblygiad a llesiant Amy. | | | 10 | 10 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA3 |
|---|---|
| 4 | **8-10 marc**<br>Ymateb ardderchog sy'n asesu ac yn dod i gasgliadau manwl a rhesymegol am ba mor bwysig yw perthnasoedd teulu i dwf, datblygiad a llesiant Amy. Mae'r ymateb yn ymdrin ag amrywiaeth eang o effeithiau posibl ar dwf, datblygiad a llesiant Amy.<br><br>Mae'r ateb wedi'i fynegi'n glir ac mae'n dangos defnydd cywir o derminoleg. Mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda iawn gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir. |
| 3 | **5-7 marc**<br>Ymateb da sy'n asesu ac yn dod i gasgliadau rhesymegol am ba mor bwysig yw perthnasoedd teulu i dwf, datblygiad a llesiant Amy. Mae'r ymateb yn ymdrin ag amrywiaeth o effeithiau posibl ar dwf, datblygiad a llesiant Amy.<br><br>Mae'r ymateb yn mynegi ac yn dangos defnydd da o derminoleg. Mae’r gwaith ysgrifennu wedi’i strwythuro’n dda, yn defnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir. |
| 2 | **3-4 marc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n asesu ac yn dod i rai casgliadau am ba mor bwysig yw perthnasoedd teulu i dwf, datblygiad a llesiant Amy. Mae'r ymateb yn ymdrin ag o leiaf ddwy effaith bosibl ar dwf, datblygiad a llesiant Amy.<br><br>Mae'r ateb wedi'i fynegi'n ddigonol ac mae'n defnyddio terminoleg yn briodol. Ar y cyfan mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda gyda gramadeg, atalnodi a sillafu eithaf cywir. |
| 1 | **1-2 farc**<br>Ymateb cyfyngedig i asesu pa mor bwysig yw perthnasoedd teulu i dwf a datblygiad Amy. Mae'r ymateb yn ymdrin ag o leiaf un effaith bosibl ar dwf, datblygiad a llesiant Amy.<br><br>Mae'r ymateb yn dangos rhywfaint o dystiolaeth o strwythur ond mae rhai gwallau i'w gweld o ran gramadeg, atalnodi a sillafu. |
| 0 | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |



© WJEC CBAC Ltd.